COFNODION CYFARFOD EITHRIADOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG FESTIVAL 2022 LTD DRWY GYNHADLEDD FIDEO, DYDD IAU 12 MAI 2022, 14:00 – 14:30

(y "**Cwmni**" a "**Festival 2022 Ltd**")
(y "**Rhaglen**" ac "**UNBOXED: Creativity in the UK**")

Presennol:

Faraz Tasnim	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cyfarwyddwr Anweithredol
Amali de Alwis MBE	Cyfarwyddwr Anweithredol
Liam Hannaway	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon

Arsyllwyr yn Bresennol:

Greg Wilson	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Daniel Coles	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Adam Richards	PWC

Yn bresennol:

Phil Batty	Cyfarwyddwr Gweithredol
David Grady	Prif Swyddog Ariannol
Caroline McGrory	Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
Sarah Tromans	Pennaeth Rheolaeth Ariannol
Jack Spooner	Uwch-reolwr Cyllid
John Darnbrook	Pennaeth Integreiddio Busnes
Lucy Bailey	Uwch-gwnselydd Cyfreithiol
Laura O'Flynn	Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

30/22 Croeso a phwrpas y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a rhoddodd ymddiheuriadau dros Roger Lewis, ynghyd â Sonia Coates ac Alison Breadon. Croesawodd y Cadeirydd Jack Spooner hefyd, Uwch-reolwr Ariannol yn y Pwyllgor Trefnu, i'r cyfarfod a chyfarfodydd y dyfodol yn dilyn ymadawiad Gabriela Butler.

Pwysleisiodd y Cadeirydd mai cyfarfod eithriadol oedd hwn ar gyfer un eitem ar yr agenda er mwyn ailadolygu'r Proffil Risg Wrth Gefn. Ar 29 Ebrill, gweithredodd y Bwrdd y Pwyllgor gyda hyn ar sail newid yn y dirwedd yn dilyn y cyfarfod ffurfiol diwethaf ar 6 Ebrill pan deimlai'r Pwyllgor mewn sefyllfa dda i symud i'r modd cyflawni.

31/22 Adolygu Proffil Risgiau Wrth Gefn

Pwysleisiodd y Cadeirydd y gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygu'r Proffil Risgiau Wrth Gefn yng nghyd-destun y materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar y ddarpariaeth weithredol. Roedd y papur (a gymerwyd fel y'i darllenwyd) yn amlinellu'r sbardunau cost allweddol a chyflwynodd PB y rhain yn fanylach.

Dywedodd PB fod y Swyddog Gweithredol yn argymell defnyddio darpariaeth i asesu effaith costau uwch ar y Proffil Risgiau Wrth Gefn cyffredinol.

Nododd PB argymhelliad arall hefyd, sef bod hyn yn cynnwys ymarfer arbedion rhaglenni cyfunol i wneud y mwyaf o'r hyblygrwydd cyllidebol sydd ar gael ar gyfer risgiau parhaus anhysbys. Dangoswyd hyn yn y dadansoddiad proffil ond byddai'n cael ei weithredu drwy drosglwyddiad uniongyrchol o godau rhaglenni presennol.

Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Pwyllgor, cyfeiriodd PB at adran 6 (Arbedion Rhaglenni) ac adran 8 (Asesiad o'r Cyfleoedd Ariannol) yn y papur.

Trafododd y Pwyllgor atebion eraill ac ystyriodd y materion a'r risgiau a gyflwynwyd.

Rhoddodd DG sicrwydd ychwanegol mai eitem ddigwyddiadol reoledig yw'r nifer a gyflwynir yn adran 7 o'r papur.

Trafododd y Pwyllgor â'r Swyddog Gweithredol y risgiau posibl y gellir eu rhagweld pan fyddant yn weithredol. Tynnodd y tîm sylw at y proffil risgiau diweddar a ddosbarthwyd a dywedodd fod y costau priodol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r timau am eu gwaith caled. I grynhoi, cytunodd y Pwyllgor ar benderfyniad proffil risgiau wrth gefn y Swyddog Gweithredol ac mae'n cymeradwyo darparu costau ychwanegol.

Ailadroddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bwysigrwydd asesu gwerth am arian ar bob cam wrth i benderfyniadau fynd rhagddynt, a gofynnodd i'r Swyddog Gweithredol ystyried y sefyllfa fasnachol fwyaf effeithiol ar gyfer lleihau costau neilltuedig ar bob cam, gan gynnal cynnydd gweithredol.

Cytunodd y Swyddog Gweithredol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyfarwyddwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyson drwy ohebiaeth.

PENDERFYNWYD BOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG

- **Yn cytuno â phenderfyniad proffil risgiau wrth gefn y Swyddog Gweithredol**

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol: Cyfarwyddwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Arsyllwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfon at y Cadeirydd:	6 Mehefin 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr:	6 Mehefin 2022
Dyddiad dosbarthu:	7 Gorffennaf 2022